Advice for parents, a voice for parents

www.ace-ed.org.uk

Gwaharddiad Parhaol O'r Ysgol (Cymru)

Ystyr geiriau?

Yn y canllaw hwn, rydyn ni'n dweud:

- Rhaid pan mae'r gyfraith yn dweud fod yn rhaid i rywbeth ddigwydd.
- Dylai pan fydd y llywodraeth yn disgwyl i rywbeth ddigwydd.

Pethau eraill y dylech eu gwybod

Yn Gwahardd o'r Ysgol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (Cylchlythyr 1/2004) mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) yn egluro'r gyfraith a'r hyn y mae'r Cynulliad yn ei ddisgwyl gan ysgolion, cyrff llywodraethol, awdurdodau addysg lleol a phaneli apêl os bydd disgyblion yn cael eu gwahardd o'r ysgol. Fe ddylech ddilyn hyn oni bai fod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Yng Nghylchlythyr 47/2006, Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (PDF 1.5MB) mae'r Cynulliad yn rhoi sylw i faterion yn ymwneud ag ymddygiad. Mae hwn yn ganllaw arferion da ond nid yw ei statws mor uchel yn llygad y gyfraith â Chylchlythyr 1/2004 sy'n ganllaw statudol. **Mae ACE yn argymell yn gryf y dylai rhieni ofyn am gopi am ddim o'r Cylchlythyrau.**

Gwahardd am gyfnod penodol: rhaid i ddisgybl beidio â chael ei wahardd am gyfanswm o fwy na 45 diwrnod ysgol mewn un flwyddyn ysgol. Os bydd cyfnod penodol yn cael ei estyn neu ei wneud yn barhaol, bydd hyn yn cyfrif fel gwaharddiad newydd.

Ni ddylid defnyddio gwaharddiad ar gyfer: materion bychan, fel peidio â gwneud gwaith cartref; perfformiad academaidd gwael; bod yn hwyr neu chwarae triwant; mynd yn feichiog; mynd yn groes i'r polisi gwisg ysgol neu reolau am edrychiad, gan gynnwys steil gwallt neu wisgo gemwaith (oni bai o bosib ei fod yn fater parhaus ac yn herio'r rheolau hyn yn agored a phan fydd pob trywydd arall wedi cael ei ddisbyddu); ymddygiad rhieni; rhieni'n gwrthod dod i gyfarfod.

Dylai ysgolion osod a marcio gwaith am 15 diwrnod ysgol cyntaf y gwaharddiad. Dylent gynllunio gyda'r awdurdod addysg lleol i gael addysg addas, lawn amser a fydd yn dechrau wedi hynny.

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007

Rhaid i gorff llywodraethol yr ysgol sefydlu **pwyllgor disgyblu** i arolygu gwaharddiadau. Rhaid i ysgolion fod â **pholisi disgyblu/ymddygiad** a ddylai gynnwys gwobrau am ymddygiad da a graddfa o gosbau ar gyfer camymddwyn. Dylai ddweud beth y bydd yr ysgol yn ei wneud i atal plant ag anghenion addysgol ychwanegol rhag cael eu gwahardd yn fwy na phlant eraill.

Bydd **panel apêl annibynnol**, gyda thri neu bum aelod, yn cael ei sefydlu gan yr awdurdod addysg lleol (AALl), a rhaid iddo gynnwys nifer benodol o gyn - benaethiaid a chyn-lywodraethwyr neu rai presennol. Rhaid i baneli beidio â chynnwys pobl sydd â chysylltiadau a allai fwrw amheuaeth ar eu gallu i fod yn ddiduedd.

Beth alla'i ei wneud?

Gall hwn fod yn gyfnod anodd a phryderus i chi a'ch plentyn. Mae'r canllaw hwn yn edrych ar y pethau y gallwch eu gwneud os ydych yn anghytuno â'r gwaharddiad.

Mae fy mhlentyn wedi cael ei wahardd yn barhaol

Cam 1: Anfonwch lythyr

Mae gennych hawl i gyflwyno eich achos yn bersonol a/neu ar bapur i'r pwyllgor disgyblu yn yr ysgol. Rhai o lywodraethwyr yr ysgol fydd aelodau'r pwyllgor. Mae gan blant 11 oed a throsodd hawl i apelio yn eu rhinwedd eu hunain hefyd.

Mae'r pwyllgor yn gallu penderfynu y dylai eich plentyn ddychwelyd i'r ysgol (yr enw am hyn yw ailfynediad). Os na fydd eich plentyn yn cael ailfynediad, fe allwch chi (a'ch plentyn os yw'n 11 neu fwy) roi eich achos gerbron panel apêl annibynnol. Gall y panel roi ailfynediad i'ch plentyn hefyd.

Ysgrifennwch at y llywodraethwyr ar unwaith.

At Gadeirydd neu Glerc y Corff Llywodraethol

Annwyl Syr/Madam,

Mae fy mhlentyn [rhowch eu henw] wedi cael ei (g)wahardd. Hoffwn ddatgan fy achos yn bersonol o flaen y llywodraethwyr.

A wnewch chi roi copïau i mi o gofnod ysgol fy mhlentyn, polisi'r ysgol ar ymddygiad/disgyblu ac [os ydynt yn berthnasol] anghenion addysgol arbennig, cydraddoldeb hiliol a chyfle cyfartal, ac unrhyw ddatganiadau gan dystion, gan gynnwys datganiad fy mhlentyn. A wnewch chi roi gwybod ym mha drefn y bydd pobl yn siarad yn y cyfarfod. Efallai y byddaf yn dod â ffrind neu rywun i gynghori gyda mi.

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007

Diolch yn fawr.

Yr eiddoch yn gywir, [enw] Rhiant

(Cadwch gopi o lythyrau)

Cam 2: Paratoi eich achos

Cyngor ACE yw eich bod yn ysgrifennu eich achos a'i ddarllen yn y cyfarfod. Fel hyn, gallwch wneud yn siwr fod eich pwyntiau yn glir ac na fyddwch yn anghofio dim ar ddamwain.
Does dim rhaid i chi anfon eich achos atynt cyn y cyfarfod, ond fe gewch chi os ydych yn dymuno.

Er mwyn llunio eich achos, dilynwch y camau yn ofalus, gam wrth gam, at Gam 13. Ni fydd pob cam yn berthnasol i'ch achos chi, ac efallai y byddwch eisiau ychwanegu pwyntiau eraill.

Yn gyntaf: a ddylai eich plentyn fod wedi cael ei wahardd?

Ddylai eich plentyn ond cael ei wahardd o'r ysgol:

- Os yw wedi torri polisi ymddygiad yr ysgol yn ddifrifol.

A

- Petai eich plentyn yn aros yn yr ysgol, y byddai'n gwneud niwed difrifol i'w addysg neu ei les ei hun neu eraill.

Ni ddylid gwahardd os oes atebion gwahanol ar gael.

Nawr edrychwch ar y rhestr o bethau na ddylai arwain at wahardd plant.

Gall plant gael eu gwahardd am ymddygiad y tu allan i'r ysgol os yw'r Pennaeth o'r farn bod yna gysylltiad clir rhwng yr ymddygiad hwnnw a chynnal ymddygiad da yn yr ysgol.

Os ydych o'r farn na ddylai gweithredoedd eich plentyn fod wedi arwain at waharddiad, esboniwch pam yn fyr. Fe fydd y camau nesaf yn eich helpu i edrych ar y pwyntiau yn fwy manwl.

Cam 3: Edrychwch yn ofalus ar y gwaharddiad

Mae gwaharddiad parhaol yn benderfyniad difrifol. Dim ond y Pennaeth sy'n gallu gwahardd. (Os yw'r Pennaeth yn absennol, yna yr uwch athro/athrawes sy'n gweithredu fel Pennaeth ddylai fod yn gyfrifol.)

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007

Ni ddylai'r Pennaeth wahardd eich plentyn yng ngwres y foment, oni bai fod bygythiad uniongyrchol i ddiogelwch eich plentyn neu eraill yn yr ysgol. Dylai unrhyw waharddiad fod yn gymesur â gweithredoedd eich plentyn. Mewn achosion eithriadol mae'n bosib gwneud gwaharddiad cyfnod penodol yn hwy neu'n barhaol.

Cyn penderfynu gwahardd eich plentyn fe ddylai'r Pennaeth:

- Wneud yn siwr bod ymchwiliad priodol wedi ei gynnal.
- Rhoi cyfle i'ch plentyn ddweud beth ddigwyddodd.
- Meddwl yn ofalus am y dystiolaeth sydd ar gael.
- Rhoi ystyriaeth i bolisïau'r ysgol ar ymddygiad a chyfle cyfartal ac os yw'n berthnasol y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.
- Darganfod ai bwlio neu aflonyddu hiliol neu rywiol yn erbyn eich plentyn a arweiniodd at weithredoedd eich plentyn.
- Os oes angen, ymgynghori ag eraill.

Mae'n rhaid i'r Pennaeth:

- Roi gwybod am bolisi ymddygiad yr ysgol i'r rhieni a'r disgyblion bob blwyddyn.

A

- Rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosib (dros y ffôn fel arfer) am y gwaharddiad a'ch hawliau.

Fe all y Pennaeth wahardd plentyn os yw o'r farn 'yn ôl pob tebygolrwydd' fod y plentyn wedi gwneud yr hyn y mae'n cael ei gyhuddo o'i wneud – hynny yw, mae'n fwy tebygol na pheidio eu bod nhw wedi gwneud y peth dan sylw. Po fwyaf difrifol yr ymddygiad y cyhuddir eich plentyn o'i gyflawni, cryfaf ddylai'r dystiolaeth fod. Gallai hyn gynnwys ymddygiad eich plentyn yn y gorffennol.

O fewn un diwrnod ysgol dylai'r Pennaeth anfon llythyr atoch. Rhaid i'r llythyr gynnwys:

- Bod y gwaharddiad yn un parhaol.
- Y rhesymau dros y gwaharddiad.
- Eich hawl chi (a hawl eich plentyn os yw'n 11 oed neu fwy) i ddatgan eich achos i'r pwyllgor disgyblu a sut i wneud hynny.

Dylai'r llythyr hefyd gynnwys:

- Sut gall eich plentyn barhau â'i addysg – trefniadau ar gyfer gosod a marcio gwaith.
- Y dyddiad hwyraf i'r llywodraethwyr gyfarfod.
- Eich hawl i gael copi o gofnod ysgol eich plentyn.
- Enw a rhif ffôn rhywun yn yr awdurdod addysg lleol (AALl) fydd yn gallu eich cynghori.

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007

- Rhif ffôn llinell gyngor ACE.

Os nad oedd y gwaharddiad yn unol ag unrhyw un o'r pwyntiau hyn, esboniwch beth ddigwyddodd a sut y gallai hynny effeithio ar eich plentyn.

Cam 4: A yw'r manylion yn glir?

Beth mae eich plentyn yn ei ddweud?

Gofynnwch i'ch plentyn beth ddigwyddodd. Ceisiwch wneud hyn cyn gynted â phosib. Ysgrifennwch neu recordiwch yr hyn y mae'n ei ddweud. Yna ewch yn ôl i'r dechrau a holwch eich plentyn yn ofalus.

Cwestiynau y gallech eu gofyn i'ch plentyn:

"Dangos i mi lle'n union yr oeddet ti."
"Lle'r oedd pawb yn sefyll?"
"Wnaeth unrhyw beth arwain i fyny at hyn?
"Beth yn union ddywedodd yr athro/athrawes?"

Ysgrifennwch fanylion atebion eich plentyn yn llawn.

Nawr gwnewch yn siwr: a oedd hyn yn achos difrifol o dorri polisi ymddygiad yr ysgol? Mae hyn yn bwysig iawn.

Beth mae pobl eraill yn ei ddweud?

- Edrychwch ar beth mae'r Pennaeth yn ei ddweud.
- Edrychwch ar beth mae pobl eraill yn ei ddweud. A fu'n rhaid i'ch plentyn a'r tystion roi datganiad? Fe ddylech chi dderbyn copi o'r holl ddatganiadau a gafodd eu hystyried gan y Pennaeth wrth benderfynu gwahardd ai peidio.
- A oes unrhyw un yn cefnogi stori eich plentyn? Ceisiwch gael datganiad ganddynt, gyda manylion clir.
- Os oes gwahaniaethau pwysig rhwng y datganiadau, nodwch nhw. A fu camddealltwriaeth?
- A yw geiriau'r bobl eraill yn disgrifio beth ddigwyddodd yn gywir?

Ychwanegwch yr holl brif bwyntiau at eich achos. Os yw eich plentyn eisiau ymddiheuro am rywbeth nawr, fe allen nhw ysgrifennu i ymddiheuro.

Cam 5: Nawr gwnewch nodiadau am eich plentyn

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007

Efallai y byddwch eisiau dweud ychydig am eich plentyn

Dychmygwch eich bod yn eu disgrifio i rywun dieithr. Cofiwch y pwyntiau da! A oes yna unrhyw adroddiadau sy'n dangos sut un yw eich plentyn? Allai rhywun swyddogol, fel arweinydd cylch chwarae, meddyg neu rywun sy'n gweithio gyda phobl ifanc, neu gymydog efallai, ysgrifennu llythyr amdano ef neu hi?

Meddyliwch am eich plentyn adeg y gwaharddiad

- A oedd y gwaharddiad yn iawn o gofio eu hoedran, iechyd ac unrhyw faterion personol?
- A oedd eich plentyn yn gofidio am rywbeth, neu oedd yna bwysau o du rhywun arall?
- Allai unrhyw beth arall fod wedi effeithio ar eu hymddygiad?

Ac yn bwysig iawn

Petai eich plentyn yn ôl yn yr ysgol (yn hytrach nag wedi'i wahardd) a fyddai hyn yn gwneud niwed difrifol i addysg a lles eich plentyn neu bobl eraill?

Meddyliwch am y digwyddiad

Os oedd yna bobl eraill yn rhan o'r digwyddiad, a oedd eu cosb nhw yn debyg i gosb eich plentyn chi? Oes yna bobl eraill yn yr ysgol, neu mewn ysgolion lleol eraill, a gafodd eu trin yn wahanol yn ddiweddar? Efallai y cewch chi wybod hyn gan yr awdurdod addysg lleol. Dylai rhif ffôn yr AALl fod yn y llythyr am y gwaharddiad.

Edrychwch ar gofnod ysgol eich plentyn

Mae gennych hawl i gael copi llawn o'r cofnod, nid y cofnod academaidd yn unig. A oes camddealltwriaeth yn dod i'r golwg? A oes yma wybodaeth newydd a allai effeithio ar eich achos?

Disgrifiwch eich plentyn ac ychwanegwch unrhyw beth sy'n esbonio ei ymddygiad a/neu sy'n dangos y gallai'r gwaharddiad fod yn anghywir.

Cam 6: A oes gan eich plentyn anghenion addysgol ychwanegol?

Mae'r rhain yn cynnwys plant sy'n:

- Newid ysgol.

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007

- O gefndiroedd lleiafrif ethnig.
- Mewn gofal cyhoeddus (rhywun yn gofalu amdanynt).
- Ffoaduriaid.
- Teithwyr.
- Gofalwyr ifanc.
- Anabl a/neu ag anghenion addysgol arbennig gan gynnwys anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.
- Dawnus a thalentog.
- O deuluoedd mewn amgylchiadau anodd.

Mae Cylchlythyr 47/06 yn dweud bod plant ag anghenion addysgol ychwanegol "mewn mwy o beryg o ymddieithrio o'r ysgol". Mae'n egluro sut y dylai ysgolion fonitro effaith polisïau, er enghraifft os bydd plant o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cosbi neu eu gwahardd yn fwy nag eraill, dylai ysgolion gymryd camau i unioni hyn. Mae rhagor o gyngor am blant mewn gofal cyhoeddus yng Nghylchlythyr 1/2004.

Os ydych yn credu bod eich plentyn mewn grŵp a oedd mewn perygl neilltuol, ysgrifennwch pam a pha gefnogaeth yr oedd arnynt ei hangen.

Cam 7: Strategaethau i wella ymddygiad

Fel arfer, dylai gwaharddiad parhaol fod yn ddewis olaf, pan fo'r ysgol wedi rhoi cynnig ar bob strategaeth sydd ar gael. Yn ôl Cylchlythyr 1/2004 nid oes disgywl y bydd plentyn yn cael ei wahardd yn barhaol nes bydd yr ysgol wedi rhoi cynnig ar amrywiaeth eang o strategaethau, ond heb lwyddiant.

Fel arfer, mae gan ysgolion fynediad at arbenigwyr ar ymddygiad. Mae Cylchlythyr 47/06 yn dweud y dylai disgyblion sydd mewn perygl o waharddiad parhaol neu ddieithrio gael Rhaglen Cefnogaeth Fugeiliol (PSP) i helpu'r plentyn reoli ei ymddygiad. Meddyliwch yn ofalus am ymddygiad eich plentyn a siaradwch â'ch plentyn. A yw'r ysgol wedi rhoi cynnig ar amrywiaeth eang o strategaethau? A oedd gan eich plentyn raglen PSP? A wnaeth yr ysgol geisio helpu eich plentyn i reoli'i ymddygiad yn well trwy gynnig hyfforddiant rheoli dicter, defnyddio anogwr dysgu, ac ati? A fu angen cyngor ar y staff ynghylch delio ag ymddygiad eich plentyn?

A ellid bod wedi osgoi'r digwyddiad hwn petai eich plentyn wedi cael y gefnogaeth gywir yn yr ysgol? Ychwanegwch hyn at eich achos.

Cam 8: A oes gan eich plentyn anawsterau emosiynol ac ymddygiadol neu anhawster dysgu arall?

Os oes gan blentyn anhawster dysgu ac angen cymorth ychwanegol yn yr ysgol, yna mae ganddo anghenion addysgol arbennig (AAA).

Os yw ymddygiad plentyn yn llawer mwy anodd nag arfer neu na allant reoli eu teimladau, efallai fod ganddynt anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007

(sef, yn Saesneg, ESBD neu EBD). Mae hyn yn anhawster dysgu. Os na fyddan nhw'n cael y cymorth cywir yn yr ysgol, gall arwain at ymddygiad gwael neu ymddygiad sy'n dirywio.

Mae help gydag anawsterau dysgu, gan gynnwys anawsterau ymddygiadol, yn cael ei roi trwy ddatganiad anghenion addysgol arbennig neu, ar gyfer plant ag anghenion llai difrifol, ceir Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Os yw eich plentyn ar gynllun "Gweithredu gan yr Ysgol" neu "Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy" neu'n cael ei asesu ar gyfer datganiad, dylai'r ysgol wneud pob ymdrech i osgoi gwaharddiad parhaol a cheisio pob ffordd ymarferol o'u cadw yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys gofyn am gyngor proffesiynol allanol, asesiad ar gyfer datganiad, neu adolygu datganiad. Os gall yr awdurdod addysg lleol (AALl) roi rhagor o gymorth neu newid yr ysgol ar ddatganiad, yna fel arfer dylai'r Pennaeth dynnu'r gwaharddiad yn ôl. Mae hwn yn faes cymhleth, i gael rhagor o help edrychwch ar y rhestr o gyhoeddiadau ar y diwedd.

Os ydych yn teimlo fod gan eich plentyn Anawsterau Emosiynol, Cymdeithasol neu Ymddygiadol neu unrhyw anhawster dysgu arall, esboniwch pam. Ydyn nhw'n cael yr help sydd ei angen? Petaen nhw wedi cael y cymorth cywir, allai hynny fod wedi effeithio ar eu hymddygiad? A yw'r ysgol wedi cadw at ei pholisi ar anghenion addysgol arbennig?

Cam 9: Troseddau difrifol

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Pennaeth wahardd am drosedd y tro cyntaf, neu un digwyddiad difrifol yn unig, lle gallai ymddygiad o'r fath effeithio ar ddisgyblaeth a lles y gymuned ysgol yn ei chyfanrwydd e.e.:

- Trais difrifol neu fygwth trais yn erbyn disgybl neu aelod staff.
- Cam-drin rhywiol neu ymosod.
- Cyflenwi cyffur anghyfreithlon.
- Defnyddio neu fygwth defnyddio arf bygythiol.

Os yw'r pwyllgor disgyblu neu banel apêl yn credu bod eich plentyn wedi cyflawni trosedd o'r fath, mae Cylchlythyr 1/2004 yn dweud na ddylen nhw fel arfer roi ailfynediad i'ch plentyn.

Mae'n bwysig iawn edrych a yw'r honiad yn disgrifio difrifoldeb yr hyn a wnaeth eich plentyn yn gywir, ynteu a yw'n gor-ddweud. Os na fydd yn digwydd eto, esboniwch pam ddim.

Cam 10: A oedd cyffuriau yn rhan o'r broblem?

Edrychwch ar bolisi cyffuriau yr ysgol – dylai fod yn elfen allweddol wrth i'r Pennaeth a'r llywodraethwyr benderfynu a yw gwaharddiad parhaol yn addas ai peidio.

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007

Dylai'r Pennaeth ymgynghori â chyd-gysylltydd cyffuriau yr ysgol (os oes un) a rhoi ystyriaeth i'r polisi yn ogystal ag union amgylchiadau'r achos a'r dystiolaeth.

Mae Cylchlythyr 1/2004 yn dweud y bydd gwahardd am gyfnod penodol yn fwy addas na gwaharddiad parhaol mewn rhai achosion. Mae cyngor y Cynulliad ar gyffuriau yn dweud na ddylai ysgolion ddefnyddio cosbau llymach na'r gyfraith.

Cam 11: Oedd yna wahaniaethu neu fwlio?

Mewn ysgolion, mae cyfraith cysylltiadau hiliol yn cynnwys yr angen i gael gwared ar wahaniaethu hiliol anghyfreithlon ac annog cyfleoedd cyfartal a pherthnasau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol. Mae hyn yn berthnasol, ymhlith pethau eraill, i ddisgyblaeth a gwahardd. Hefyd, rhaid i ysgolion fod â pholisi cydraddoldeb hiliol a monitro sut mae polisïau yn effeithio ar wahanol grwpiau hiliol.

Os ydych o'r farn fod gwaharddiad eich plentyn yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd â'i grŵp hiliol, efallai fod y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol yn berthnasol. Gallwch gyfeirio pryderon am y materion hyn at dîm cwynion y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol.

Os ydych o'r farn fod gwaharddiad eich plentyn yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd â'i anabledd, efallai fod y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn berthnasol. Mae disgwyl i ysgolion gymryd camau rhesymol i rwystro plentyn rhag cael ei drin yn llai ffafriol na disgyblion eraill am reswm sy'n ymwneud â'i anabledd. Os gallwch ddangos y gallai'r ysgol fod wedi gweithredu i osgoi gwahardd eich plentyn, efallai fod gennych sail ar gyfer hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd. Mae hwn yn faes cymhleth, felly edrychwch ar lyfryn ACE Disability Discrimination. Rhagor o wybodaeth trwy Linell Gymorth y Comisiwn Hawliau Anabledd.

Edrychwch ar bolisi ymddygiad yr ysgol – mae'n rhaid iddo gynnwys bwlio ac fe ddylai gynnwys aflonyddu.

Os ydych o'r farn fod bwlio, gwahaniaethu neu aflonyddu yn chwarae rhan yng ngwaharddiad eich pentyn, esboniwch pam. I gael rhagor o help gyda'r holl faterion hyn, mae rhagor o wybodaeth ar ddiwedd y dudalen hon.

Cam 12: Atebion eraill

Ni ddylid gwahardd os oes yna atebion eraill yn bosib, er enghraifft:

- Rhoi rhagor o gefnogaeth i'ch plentyn trwy Raglen Cymorth Bugeiliol (PSP), wedi ei llunio gyda chi, eich plentyn ac asiantaethau allanol megis yr AALl.
- Defnyddio proses cyfiawnder adferol, sy'n caniatáu i'ch plentyn unioni unrhyw niwed a wnaed.
- Gwaharddiad mewnol (term arall yw neilltuo mewnol). Gallai hyn olygu bod eich plentyn yn cael ei symud i rywle arall o fewn yr ysgol gyda chefnogaeth

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007

briodol, neu symud i ddosbarth arall dros dro. Gall gwaharddiad mewnol barhau yn ystod cyfnodau egwyl.
- Symud dan reolaeth i ysgol arall, ond dim ond gyda'ch dealltwriaeth a'ch cydweithrediad llawn chi a lle bo hynny er lles gorau eich plentyn.

Ni ddylech gael eich rhoi dan bwysau i dynnu eich plant o'r ysgol dan fygythiad o gael gwaharddiad parhaol.

Oes yna ateb arall a fyddai'n gweithio i'ch plentyn chi? Esboniwch pam. Er enghraifft, gwahanol fath o gosb, gyda chymorth ar gyfer problemau ymddygiad neu anghenion addysgol arbennig.

Cam 13: A yw'r berthynas wedi chwalu?

Ydych chi'n meddwl efallai y byddai'r ysgol yn dweud bod y berthynas rhwng eich plentyn (neu y chi) a phobl eraill yn yr ysgol wedi chwalu? Os hynny, efallai y gallech chi esbonio pam. Meddyliwch yn ofalus beth i'w ddweud a cheisiwch ddangos sut y gellir gwella'r perthnasau gydag ewyllys da ar y ddwy ochr. Os oes gennych chi blant eraill yn yr ysgol, er enghraifft, mae gennych chi reswm cryf iawn dros gyd-dynnu â'r Pennaeth a staff yr ysgol.

Mae hyn yn bwysig iawn oherwydd, mewn amgylchiadau eithriadol, hyd yn oed os yw'r panel yn anghytuno â'r gwaharddiad, fyddan nhw ddim yn fodlon rhoi ailfynediad i blentyn os ydynt o'r farn fod y berthynas wedi chwalu ac na ellir ei hadfer. Os ydych chi'n credu mai rhywbeth dros dro yw unrhyw ddrwgdeimlad ac nid rhywbeth eithriadol, sut gallech chi ddangos hyn i'r panel?

Mae'n rhaid i'r panel gydbwyso lles eich plentyn â lles cymuned yr ysgol.

Esboniwch sut y bydd y gwaharddiad hwn yn effeithio er eich plentyn, nawr ac yn y dyfodol. Pam y byddai'n well i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol? Ychwanegwch hyn at eich achos.

Cam 14: Eich crynodeb

Ar ddiwedd eich achos, mae'r crynodeb yn ailadrodd yn fyr eich holl bwyntiau o gamau 2-13 ac unrhyw bwyntiau pwysig eraill a wnaethoch.

Oes yna rannau o Gylchlythyrau 1/04 neu 47/06 sydd heb eu dilyn, o bosib? Cofiwch, ddylen nhw ddim cael eu hanwybyddu. Fe allech chi gynnwys y tudalennau perthnasol a thanlinellu'r darnau dan sylw. Gallwch fynd â digon o gopïau i bawb yn y cyfarfod, neu eu hanfon.

Mae ein crynodeb enghreifftiol ar y dudalen nesaf yn eich helpu i amlinellu eich achos. Dewiswch y pwyntiau sy'n berthnasol i'ch achos chi.

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007

Eich crynodeb.

Rydw i'n teimlo fod yr ysgol, heb reswm da, wedi methu gweithredu yn unol â rhai o ganllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghylchlythyr 1/2004 a/neu Gylchlythyr 47/06. Rydw i wedi nodi hyn ar dudalennau...
[Dywedwch sut y mae hyn wedi effeithio ar waharddiad eich plentyn]

Rwy'n deall na ddylai plentyn ond cael ei wahardd ar gyfer achos difrifol o dorri'r polisi disgyblu ac os ydynt yn achosi niwed difrifol i'w haddysg neu eu lles eu hunain neu bobl eraill ac na ddylid defnyddio gwaharddiad os oes dewis arall.

Yn achos fy mhlentyn i, nid oedd hyn yn achos difrifol o dorri polisi disgyblu'r ysgol / ni fyddai yn achosi niwed difrifol i'w addysg neu ei les/lles ei hun neu eraill yn yr ysgol / roedd yna ddewis arall, ayb. [rhowch enghreifftiau].

Rwy'n anghytuno â gwaharddiad fy mhlentyn hefyd oherwydd:
{ Ychwanegwch eich prif bwyntiau a rhowch fanylion byr, er enghraifft:}

- *Ni wnaeth ef/hi wneud y pethau yn y cyhuddiad...*
- *Fe wnaeth ef/hi rywbeth ddylai ddim bod wedi arwain at waharddiad...*
- *Roedd yn cael ei fwlio/bwlio ac/neu roedd rhywun yn aflonyddu arno/arni...*
- *Mae ganddo/ganddi anghenion addysgol ychwanegol ond nid yw'n cael yr holl help sydd ei angen...(dywedwch os ydych yn teimlo bod gwahaniaethu ar sail hil neu anabledd wedi digwydd ac a ydych yn gwneud hawliad)*

Hefyd rwy'n teimlo:

- *Un digwyddiad/y tro cyntaf oedd hyn ac nid oedd yn ddifrifol….*
- *Nid yw'r ysgol wedi manteisio ar yr holl strategaethau i wella ymddygiad fy mhlentyn cyn penderfynu gwaharddd...*
- *Efallai fod yna gamddealltwriaeth...*
- *Os na fydd fy mhlentyn yn cael dod yn ôl rwy'n poeni y bydd...*

Cam 15: Datgan eich achos

Mae'n rhaid i'r cyfarfod gael ei gynnal o fewn 15 diwrnod ysgol i'r gwaharddiad. Dylai gael ei gynnal ar amser sy'n gyfleus i chi ac mewn lle sy'n hwylus i chi, cyn bellad ag y bo modd. Fe allwch chi roi eich achos ar bapur, ond yn gyffredinol mae'n llawer gwell bod yno eich hun.

Cyn y cyfarfod:

- Ysgrifennwch neu teipiwch eich achos i'w ddarllen yn y cyfarfod. Os rhowch chi gopïau i bobl yn y cyfarfod, efallai y bydd yn helpu'r llywodraethwyr gofio eich pwyntiau.
- Edrychwch drwy eich achos ac ysgrifennwch unrhyw gwestiynau yr hoffech eu gofyn.

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007

- Casglwch unrhyw ddeunyddiau i'ch cefnogi (ymddiheuriad, llythyrau ayb.). Anfonwch nhw i'r clerc, hyd yn oed os ydych wedi methu'r dyddiad cau.

Pwy fydd yn y cyfarfod?

- Fel arfer tri neu bump o'r llywodraethwyr, sef y pwyllgor disgyblu (ddylai neb fod â rhan yn y mater neu gallai hynny olygu na fyddant yn ddiduedd).
- Clerc i gymryd nodiadau a gwneud yn siwr bod y llywodraethwyr yn gwybod y drefn.
- Bydd cynrychiolydd yr AALl yn cael gwahoddiad i roi sylwadau.
- Y Pennaeth, i ddatgan ei achos.
- O bosib, tystion.

Sut bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal?

Fe ddylech chi gael gwybod beth yw'r drefn ymlaen llaw. Fel arfer bydd yr achos yn erbyn eich plentyn yn cael ei gyflwyno'n gyntaf fel y gallwch chithau wedyn ymateb. Dylai unrhyw ddatganiadau gael eu hanfon atoch ymlaen llaw. I fod yn deg, os yw'r Pennaeth yn dod â thystiolaeth neu bapurau newydd, gofynnwch am egwyl er mwyn cael eu darllen, neu gofynnwch am gael aildrefnu'r cyfarfod. Fe ddylech chi gael cyflwyno eich achos heb neb yn torri ar eich traws. Ni ddylai'r Pennaeth fod gyda'r llywodraethwyr heb eich bod chithau yno.

Mae ACE yn argymell eich bod yn darllen eich achos llawn iddyn nhw, gan gynnwys y crynodeb, cyn rhannu copïau. Os byddan nhw'n gofyn i chi "grynhoi" ar ddiwedd y cyfarfod, fe allwch chi ddarllen y crynodeb eto. Fe allech chi ychwanegu unrhyw bwyntiau pwysig newydd.

Oes raid i fy mhlentyn fynd i'r cyfarfod?

Na, yn aml fydd y plant ddim yn mynd i'r cyfarfod, ac ni ellir eu gorfodi i wneud hynny. Mae gan eich plentyn hawl i'w farn gael gwrandawiad, ond fe allai hyn fod trwy ddatganiad ysgrifenedig. Ydych chi'n meddwl y byddai'n helpu petai eich plentyn yno am yr holl amser neu ran o'r amser? Penderfynwch ymlaen llaw a ydych chi'n hapus i'ch plentyn gael ei holi, neu ddim ond gwneud datganiad, neu ymddiheuro a gadael. Eglurwch wrth y llywodraethwyr beth sy'n mynd i ddigwydd. Cofiwch, os yw eich plentyn yn 11 oed neu fwy, mae disgyblion yn cael penderfynu cyflwyno eu hachos drostynt eu hunain a rhaid caniatáu iddyn nhw fod yn bresennol.

Cam 16: Y llywodraethwyr yn penderfynu

Pan fydd y llywodraethwyr yn penderfynu mae'n rhaid iddynt:

- Ystyried amgylchiadau'r gwaharddiad.
- Ystyried eich achos a safbwyntiau'r awdurdod addysg lleol.

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007

- Penderfynu a fyddant yn rhoi ailfynediad ai peidio i'ch plentyn os yw hynny'n ymarferol (e.e. allan nhw ddim rhoi ailfynediad i'ch plentyn os yw wedi gadael yr ysgol).
- Ystyried unrhyw bwyntiau a wneir gan eich plentyn.

Ac fe ddylen nhw:

- Ystyried a yw'r Pennaeth wedi dilyn y drefn wahardd a Chylchlythyr 1/2004.
- Gofyn pa gymorth y gall yr awdurdod addysg lleol ei gynnig tuag at ailymdoddi.

Fodd bynnag, fel arfer ni ddylai'r llywodraethwyr roi ailfynediad os ydynt yn cytuno:

- Bod eich plentyn wedi cyflawni tramgwydd difrifol sy'n effeithio ar ddisgyblaeth a lles cymuned yr ysgol yn ei chyfanrwydd (gweler Cam 9).

Os nad yw'r llywodraethwyr yn newid y penderfyniad ynghylch y gwaharddiad mae'n rhaid iddyn nhw ysgrifennu atoch ar unwaith, gan roi eu rhesymau a manylion y broses apelio.

Hyd yn oed os nad ydych yn dymuno i'ch plentyn gael mynd yn ôl i'r ysgol, neu ei fod bellach yn rhy hen, mae'n rhaid i'r llywodraethwyr benderfynu, ar sail y dystiolaeth, a oedd cyfiawnhad dros benderfyniad y Pennaeth i wahardd eich plentyn. Dylai'r llywodraethwyr roi eu barn ar gofnod ysgol eich plentyn. Hefyd rhaid iddynt gytuno i roi eich achos apêl ar gofnod eich plentyn os byddwch yn gofyn iddynt wneud hynny.

Cam 17: Yr apêl annibynnol

Chewch chi ddim apelio os byddwch yn colli'r dyddiad cau. Mae gennych 15 diwrnod ysgol i ysgrifennu'n ôl a dweud eich bod eisiau apelio gan roi eich rhesymau. Fe allech chi roi'r crynodeb fan hyn, ac ychwanegu unrhyw bwyntiau newydd o'r cyfarfod neu unrhyw beth y byddwch wedi meddwl amdano wedyn. Ddylai pwyllgor disgyblu'r ysgol na'r Pennaeth ddim rhoi rhesymau newydd dros y gwaharddiad. Fe geir cyflwyno tystiolaeth newydd. Rhaid cynnal y gwrandawiad dim hwyrach nag 15 diwrnod ysgol ar ôl iddynt dderbyn eich llythyr.

Fe ddylech chi gael gwybod trefn y gwrandawiad a dylai'r cyfan fod yn deg a ddim yn rhy ffurfiol. Mae'r un pwyntiau yn berthnasol ag ar gyfer cyfarfod y pwyllgor disgyblu cynt, heblaw y gall un o'r llywodraethwyr hefyd gyflwyno achos y pwyllgor a chael cynrychiolaeth gyfreithiol. Gall unrhyw ddioddefwr honedig roi eu safbwyntiau, ar bapur, trwy gynrychiolydd neu yn bersonol.

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007

Dylai'r panel:

- Benderfynu, yn ôl pob tebygolrwydd, a wnaeth eich plentyn yr hyn y mae'n cael ei gyhuddo o'i wneud – hynny yw, ei bod hi'n fwy tebygol na pheidio ei fod ef neu hi wedi gwneud y peth dan sylw.
- Ystyried a yw'r Pennaeth a'r pwyllgor disgyblu wedi cadw at y gyfraith a'r cyfarwyddyd. Rhaid iddynt beidio â rhoi ailfynediad i blentyn yn syml oherwydd nad ydynt wedi cael eu dilyn. Ond fe allai'r panel roi ailfynediad petai ffactorau pwysig heb gael eu hystyried, neu gyfiawnder heb ei weinyddu oherwydd na ddilynwyd gweithdrefnau.
- Ystyried a yw eich plentyn wedi cael cymorth trwy Raglen Cymorth Bugeiliol neu a gawsant yr help ychwanegol sy'n cael ei nodi mewn datganiad AAA.
- Ystyried a oedd penderfyniad y Pennaeth yn rhoi ystyriaeth i: bolisi ymddygiad yr ysgol, y polisi cyfle cyfartal ac, os yw'n berthnasol, y polisi gwrth-fwlio, y polisi anghenion addysgol arbennig a'r polisi cydraddoldeb hiliol.
- Ystyried pa mor deg oedd y gwaharddiad o gymharu â'r ffordd y cafodd disgyblion eraill a oedd yn rhan o'r un digwyddiad eu trin.
- Penderfynu a oedd gwaharddiad parhaol eich plentyn yn rhesymol.

Gall y panel benderfynu:

1. Rhoi ailfynediad ac ar ba ddyddiad.
2. Cadarnhau'r gwaharddiad.
3. Er ei bod yn gyfiawn rhoi ailfynediad, nad yw hynny'n ymarferol.

Er mwyn penderfynu a ddylid rhoi ailfynediad i'ch plentyn:

- Rhaid i'r panel roi ystyriaeth i les eich plentyn a lles gweddill cymuned yr ysgol

A

- Dylai'r panel gydbwyso lles eich plentyn â lles cymuned yr ysgol.

Fel arfer, ni ddylai'r panel roi ailfynediad i blentyn os ydynt yn cytuno:

- Bod y plentyn wedi cyflawni tramgwydd difrifol sy'n effeithio ar ddisgyblaeth a lles cymuned yr ysgol gyfan.

Y panel yn penderfynu y byddai'n gyfiawn rhoi ailfynediad i'ch plentyn, ond na fyddai hynny'n ymarferol

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007

Gall y panel benderfynu y byddai'n gyfiawn rhoi ailfynediad i'ch plentyn, ond na fyddai hynny'n ymarferol oherwydd fod yna amgylchiadau eithriadol lle nad yw hynny'n synhwyrol, neu er lles gorau pawb.

Gall amgylchiadau eithriadol gynnwys adegau pan chwalodd y berthynas y tu hwnt i'w hadfer:

- Rhwng y plentyn a'r athrawon.
- Rhwng y rhiant a'r ysgol.
- Rhwng y plentyn a disgyblion eraill.

Gall y panel benderfynu hefyd y byddai'n gyfiawn ond nid yn ymarferol rhoi ailfynediad i'ch plentyn

- Oherwydd eich bod chi wedi dweud nad ydych eisiau i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol

NEU

- Oherwydd bod eich plentyn yn rhy hen i fynd i'r ysgol erbyn hyn. Os bydd y panel yn penderfynu y byddai'n gyfiawn ond yn anymarferol rhoi ailfynediad, dylent nodi hynny yn eu llythyr am y penderfyniad, gan esbonio pam y gwnaethon nhw benderfynu peidio â rhoi ailfynediad. Dylid ychwanegu'r llythyr at gofnod ysgol eich plentyn.

Os yw eich hawliad yn cynnwys honiad o wahaniaethu ar sail anabledd o ran gwahardd eich plentyn

Mae'n rhaid i'r panel benderfynu a fu gwahaniaethu anghyfreithlon dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd neu'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol. Darllenwch yr help ychwanegol i weld ble i fynd am gymorth gyda materion gwahaniaethu.

Os bydd y gwaharddiad parhaol yn cael ei gadarnhau, efallai y bydd yr AALl yn cynnig Contract Rhianta i chi. Yn gyffredinol bydd hyn yn digwydd pan fyddant yn teimlo fod arnoch angen cefnogaeth gydag ymddygiad eich plentyn. Rhaid peidio â defnyddio llofnodi contract o'r fath fel amod ar gyfer cael mynediad i ysgol arall. Mewn rhai achosion ble bydd yr AALl o'r farn eich bod yn amharod neu'n methu delio ag ymddygiad eich plentyn, efallai y byddant yn gwneud cais am Orchymyn Rhianta (gweler Cylchlythyr 47/06 Atodiad 3i).

Dyma gyngor ACE:

Beth bynnag sy'n digwydd i'ch plentyn, boed nhw'n mynd yn ôl i'r ysgol, yn mynd i ysgol arall, neu'n mynd i uned gyfeirio disgyblion, fe fydd arnyn nhw angen cefnogaeth. Cysylltwch â'r awdurdod addysg lleol ar unwaith i drafod eich camau nesaf.

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007

Rhagor o wybodaeth

Gan ACE:

Llinellau cyngor: Gwahardd – 0808 800 0327; pob mater arall – 0808 800 5793

Canllawiau ACE: Bwlio – sut i ymateb, Disability Discrimination a Getting Extra Help, £1.70 yr un a Special Education Handbook, £17.99

Gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

Ffôn: 029 2082 1556

Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (Cylchlythyr 1/2004)
Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (Cylchlythyr 47/06) (PDF 1.5MB)
Côd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig
Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc (Cylchlythyr 17/02)

Gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol:

Côd Ymarfer ynghylch y Ddyletswydd i Hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol (PDF 442KB)

Mae ACE yn gallu cynnig y llyfryn hwn ar lein am ddim diolch i nawdd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Os bu'n ddefnyddiol i chi, tybed a wnewch chi ystyried gwneud cyfraniad er mwyn cefnogi gwaith ACE.

© Advisory Centre for Education (ACE) Ltd. 2007